# Ysgol Gynradd Gymraeg Tan-y-lan

Ysgol Gymraeg Tan-y-lan

Bydd Dda, Bydd Doeth, Bydd Wych

# Polisi Amddiffyn Plant



# Ysgol Gymraeg Tan-y-lan
# Polisi Amddiffyn Plant

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC) yn ganolog i gynlluniau, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, nid yn unig yr ydym yn addysgu am hawliau plant ond rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas – yn gysylltiedig ag Erthyglau 3, 16, 19, 20, 21, 25, 27, 34, 36, 39 (CRC)

**Rhifau Cyswllt Brys:**
**Berian Wyn Jones (Pennaeth)**
**Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig**

**Mr Aled Williams (Dirprwy Bennaeth)**

**Mr Gareth Huxtable (Cadeirydd y Llywodraethwyr)**
**Llywodraethwr Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant – 07788754860**

**Tîm Mynediad ac Asesu Cychwynnol, y Gwasanaethau Cymdeithasol – 01792 635700**

**Gweithiwr Cymdeithasol Brys sydd ar Ddyletswydd y Tu Allan i Oriau 01792 775501**

**Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Gwasanaethau Cymdeithasol - 01792 636248**

**Prif Swyddog – Plant a Theuluoedd– 01792 635700**

**Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant – Lisa Collins**
**Uned Ysgolion a Llywodraethwyr - 01792 637148/07827822700**
**Lisa.collins@swansea.gov.uk**

**Rhagarweiniad**
Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:
- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.
- Amddiffyn Plant - llyfryn Nodiadau i Staff (Mawrth 2011)
- Staff sy'n Wynebu Honiad O Gam-Drin
- Diogelu Plant mewn Addysg (Cylchlythyr LIC 005/2008)

**Sail Statudol Amddiffyn Plant**
Deddf Plant 1989
Deddf Plant 2004
Diogelu Plant mewn Addysg - rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu yn unol â Deddf Addysg 2002, cylchlythyr 005/2008.
Mae dyletswydd ar y corff llywodraethu dan adran 175 Deddf Addysg 2002 i sicrhau bod "eu swyddogaethau sy'n ymwneud ag ymddygiad ysgol yn cael eu harfer er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant..."

Mae staff a llywodraethwyr yr ysgol hon yn cydnabod yn llawn y cyfraniad maent yn ei wneud i ddiogelu plant. Mae lles pob disgybl yn yr ysgol hon yn flaenoriaeth. Credwn y dylai ein hysgol ddarparu amgylchedd gofalgar, cefnogol a diogel sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, corfforol a moesol pob plentyn drwy ddarparu cwricwlwm ac ethos sy'n hyrwyddo hunanwerth, hyder ac annibyniaeth. Ni all plentyn ddysgu'n effeithiol a chyrraedd ei botensial oni bai ei fod yn teimlo'n ddiogel.

Mae gan ein plant yr hawl i ddiogelwch, ni waeth beth yw eu hoed, eu rhyw, eu hil, eu diwylliant neu eu hanabledd. Mae ganddynt yr hawl i fod yn ddiogel yn ein hysgol. Mae Tan-y-lan yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau'r Plentyn.

Yn ein hysgol, rydym yn parchu'n plant. Mae'r awyrgylch yn ein hysgol yn un sy'n annog yr holl blant i wneud eu gorau. Rydym yn darparu cyfleoedd sy'n galluogi'n plant i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Mae'r ffordd rydym yn addysgu addysg bersonol, gymdeithasol, iechyd a dinasyddiaeth, fel rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn helpu i ddatblygu agweddau priodol yn ein plant ac yn eu gwneud yn ymwybodol o effaith eu penderfyniad ar eraill. Rydym hefyd yn eu haddysgu i adnabod risgiau gwahanol mewn sefyllfaoedd gwahanol, a sut i ymddwyn mewn ymateb iddynt.

## Nodau

**Nodau ein polisi yw**:

- sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwybod y bydd staff yn gwrando arnynt ac y byddant yn gallu mynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt;
- cynyddu ymwybyddiaeth yr **holl** staff addysgu, staff cysylltiol, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr o'r angen am ddiogelu disgyblion drwy nodi'r "plant mewn angen"* ac achosion posib cam-drin plant;
- pwysleisio'r angen i staff yr ysgol hon weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau perthnasol eraill (yn enwedig yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a'r heddlu) a'u cefnogi wrth gyflawni eu dyletswyddau statudol;
- sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau unigol am adrodd pryderon a'u bod yn deall y gweithdrefnau adrodd;
- sicrhau bod yr ysgol a'r Corff Llywodraethu'n arfer recriwtio diogel wrth wirio addasrwydd staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda disgyblion;
- darparu modd systematig o fonitro plant y gwyddys neu yr amheuir eu bod mewn perygl o niwed.

**Plentyn mewn angen - mae plentyn mewn angen yn blentyn y gall fod angen cefnogaeth arno gan y Gwasanaethau Cymdeithasol neu asiantaeth arall ond nad yw o reidrwydd mewn perygl o niwed sylweddol neu ag angen ei amddiffyn yn ddi-oed. Mae'n rhaid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i aelod uwch o staff ar unwaith.* Dylid ceisio mwy o gyngor ac arweiniad gan y Tîm Cyfeirio ac Asesu yn y Gwasanaethau Cymdeithasol Rhif ffôn: *01792*


*635700. Dylid cyflwyno cyfeiriadau, fel ar gyfer Amddiffyn Plant, ar y Ffurflen Asesu a Chyfeirio Cyffredinol.*

**Beth yw cam-drin?**

- Corfforol
- Esgeulustod
- Emosiynol
- Rhywiol
- Domestig

**Corfforol**

- Mae hyn yn cynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio.
- Mae hefyd yn cynnwys salwch ffug. Gall hyn ddigwydd pan fydd rhiant neu ofalwr yn cogio symptomau afiechyd neu'n achosi salwch i blentyn yn eu gofal yn fwriadol




**Esgeulustod:**

- Esgeulustod yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol.
- Esgeulustod corfforol.
- Esgeulustod diogelwch.
- Esgeulustod addysgol.
- Esgeulustod gofal meddygol.

**Nodweddion sy'n bresennol:**

- Chwant bwyd yn gyson
- Hylendid personol gwael
- Blinder cyson
- Dillad mewn cyflwr gwael

- Teneuder
- Problemau meddygol heb eu trin
- Dim perthnasoedd cymdeithasol/perthnasoedd gwael â chymheiriaid
- Tueddiadau dinistriol

**Emosiynol:**

- Cam-drin emosiynol yw trin plentyn yn emosiynol wael yn barhaus sy'n achosi effaith andwyol ddifrifol barhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn.
- Gwelir rhywfaint o gam-drin emosiynol ym mhob math o gam-drin, ond gellir ei weld ar ei ben ei hun.

**Nodweddion sy'n bresennol:**

- Gwrthodiad.
- Cael ei anwybyddu/ynysu.
- Brawychu'r plentyn.
- Llygru'r plentyn.
- Beirniadaeth uchel, cynhesrwydd isel.

**Cam-drin yn y Cartref**

- Ceir sawl ffurf ar gam-drin yn y cartref a gall gynnwys ynysu, bygwth, rheoli a bychanu yn ogystal â thrais yn erbyn y dioddefwr.

**Nodweddion sy'n bresennol:**

- Gall plant gael eu hanafu'n gorfforol.
- Gall plant weld rhiant/gofalwr yn cael ei gam-drin a gall hyn achosi trawma emosiynol.
- Gall y trawma emosiynol hwn gael effaith niweidio difrifol ar ddatblygiad plentyn.
- Gall y ffaith bod plant wedi gweld gwrthdaro rhwng rhieni arwain at bryder difrifol a gofid seicolegol tymor hwy.
- Ymddygiad 'copïo'.
- Gall cam-drin yn y cartref gael effaith negyddol ar allu'r dioddefwr i ofalu am ei phlant/blant.

**Cam-drin rhywiol**

- Mae cam-drin rhywiol yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio.
- Gall gynnwys gweithredoedd treiddiad, neu weithredoedd lle na cheir treiddiad.
- Mae hefyd yn cynnwys plant yn cynhyrchu neu'n edrych ar ddeunydd pornograffig neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol.

**Nodweddion sy'n bresennol - Rhywiol**

- Newid mewn ymddygiad.
- Gwybodaeth ac ymddygiad rhywiol amhriodol.

- **Beichiogrwydd a llacrwydd moesau.**
- **Bwlimia.**
- **Nid yw'r rhan fwyaf o blant yn dangos symptomau neu arwyddion.**
- **Y PETH PWYSICAF YW'R HYN Y MAE PLENTYN YN EI DDWEUD**

**Camfanteisio'n Rhywiol ar blant**

**Camfanteisio'n rhywiol ar blant yw gorfodi neu gymell plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol.**

**Mae'n fath o gam-drin rhywiol sy'n cynnwys cyfnewid tâl o ryw fath, a all gynnwys arian, ffôn symudol neu eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'diogelu' neu serch.**

**Mae cyfuniad o'r ffaith fod person ifanc yn ddiamddiffyn a'r broses baratoi a ddefnyddir gan y tramgwyddwyr yn ei gwneud hi'n anodd i'r person ifanc wybod natur ecsbloetio perthnasoedd ac ni allant roi caniatâd gwybodus.**

**Dangosyddion**

- **cyfnodau o fynd ar goll dros nos neu am gyfnodau hwy;**
- **'cariad' hŷn neu berthynas ag oedolyn sy'n rheoli;**
- **cam-drin corfforol ac emosiynol gan y 'cariad' neu'r oedolyn sy'n rheoli;**
- **mynd i mewn i a/neu adael cerbydau y mae oedolion anhysbys yn eu gyrru;**
- **symiau diesboniad o arian, dillad drud neu eitemau eraill;**
- **niwed corfforol heb esboniad credadwy;**
- **mynd yn aml i ardaloedd sy'n adnabyddus am waith rhyw.**

**Os bydd datgeliad:**
- **cofnodwch yr union eiriau a ddefnyddiwyd gan y plentyn;**
- **peidiwch â holi'r plentyn; cofnodwch yr hyn y mae wedi'i ddweud o'i wirfodd;**
- **rhowch wybod ar unwaith i'r pennaeth/uwch aelod o staff;**
- **cyfeiriwch at y Tîm Mynediad ac Asesu Cychwynnol**
  **Rhif ffôn y Gwasanaethau Cymdeithasol 01792 635700.**

**Gweler hefyd Atodiad 1**

**Gweithdrefnau**

**Yr Athro Dynodedig/Athrawes Ddynodedig dros Amddiffyn Plant**

**Yn yr ysgol hon, y Pennaeth, Mr Berian Wyn Jones, yw'r athrawes ddynodedig o ran materion amddiffyn plant. Yn ei habsenoldeb, y Dirprwy Bennaeth (Mrs Rachel Collins) fydd yn gyfrifol am y materion hyn. Os na fydd aelod o'r UDRh ar gael, cysylltwch â Kathryn Thomas, Rheolwr, Gwasanaethau Ysgolion, Llywodraethwyr a Myfyrwyr, Ffôn: 01792 636537 neu Nigel Stokes, Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant, Ffôn: 01792 637148**

**Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff a'r Llywodraethwyr yn gwybod pwy yw'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig ac yn derbyn hyfforddiant Amddiffyn Plant yr ALI.**

**Rôl yr athro dynodedig/athrawes ddynodedig yw:**

- **cydlynu'r holl faterion amddiffyn plant, gweithredu fel ffynhonnell cyngor a chefnogaeth i unrhyw staff a chanddynt bryderon neu wybodaeth bod disgybl yn cael ei gam-drin neu'n blentyn mewn angen;**
- **bod yn gyfrifol am gyfeirio plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol;**
- **sicrhau bod yr ysgol yn cael ei chynrychioli mewn cynadleddau achos a chyfarfodydd craidd ac yn cyfrannu'n llawn drwy ddarparu adroddiadau yn ôl yr angen;**
- **mynd i hyfforddiant yn rheolaidd a rhaeadru hyfforddiant i staff;**
- **sicrhau bod yr holl staff (gan gynnwys gweithwyr asiantaeth a'r rhai y mae'r ysgol yn eu cyflogi'n uniongyrchol) yn meddu ar dystysgrif Datgelu a Gwahardd ddilys. (cronfa ddata DaG ar gael yn swyddfa'r ysgol).**
- **sicrhau y gall yr holl staff (gan gynnwys staff newydd/athrawon cyflenwi) gael gafael ar yr holl ddogfennau amddiffyn plant perthnasol ac yn deall eu cyfrifoldebau eu hunain.**
- **rhoi gwybod i Gydlynydd Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol am unrhyw honiad ynghylch aelod o staff;**
- **sicrhau bod cofnod cronolegol o bryderon yn cael ei gadw os oes pryderon am blentyn, hyd yn oed os nad oes angen cyfeirio ar unwaith;**
- **mynd i gyfarfodydd Strategaethau Uwch;**
- **sicrhau bod yr holl gofnodion, gan gynnwys cofnodion cynadleddau achos yn cael eu cadw'n gyfrinachol ac yn ddiogel (ar wahân i gofnodion disgyblion);**
- **anfon cofnodion y plentyn, gan gynnwys yr holl wybodaeth amddiffyn plant, ar unwaith at unrhyw ysgol y mae'r plentyn yn trosglwyddo iddi.**

**Y Llywodraethwr dros Amddiffyn Plant**
Cadeirydd y Llywodraethwyr yw'r llywodraethwr enwebedig ar gyfer amddiffyn plant.
Ei rôl yw sicrhau:

- bod gan ein hysgol bolisi amddiffyn plant ar waith sy'n cael ei adolygu i sicrhau ei effeithiolrwydd;
- bod yr athro dynodedig/athrawes ddynodedig a staff eraill yn mynd i hyfforddiant priodol a rheolaidd;
- **yr adroddir am unrhyw honiadau a wnaed yn erbyn y Pennaeth iddo ar unwaith.** Yna, bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn cysylltu â Chydlynydd Amddiffyn Plant yr Awdurdod Lleol ar unwaith ac yn mynd i unrhyw gyfarfod Strategaethau Uwch a drefnir;
- bod gan yr ysgol weithdrefn disgyblu staff gyfoes y cytunir arni ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn yn erbyn aelodau o staff, gan gynnwys honiadau Amddiffyn Plant;
- bod yr ysgol yn gweithredu gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn sicrhau bod yr holl wiriadau priodol yn cael eu cynnal ar yr holl staff perthnasol yn unol â rheoliadau cyfredol;
- bod eitem ar yr agenda sef cynnal cyfarfod o'r Corff Llywodraethu o leiaf unwaith y flwyddyn, lle bydd yr athro dynodedig/athrawes ddynodedig yn adrodd ar:
  - newidiadau i'r gweithdrefnau neu'r polisi amddiffyn plant
  - hyfforddiant a wnaed gan staff a llywodraethwyr yn y deuddeg mis blaenorol.

**- nifer yr achosion o natur amddiffyn plant a gododd yn yr ysgol yn y deuddeg mis blaenorol (heb fanylion nac enwau)**
**- ble a sut mae amddiffyn plant yn ymddangos yn y cwricwlwm.**

**Os bydd unrhyw athro/athrawes yn amau bod plentyn yn ei ddosbarth/dosbarth yn cael ei gam-drin, dylent hysbysu'r person a enwir am eu pryderon ar unwaith. Gall cam-drin fod o natur rywiol, emosiynol neu gorfforol a gall hefyd fod o ganlyniad i esgeulustod.**

**Os bydd plentyn yn honni camdriniaeth, bydd yr ysgol yn mynd ati i gyfeirio ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol heb gyfathrebu a'r rhieni'n gyntaf. Y pennaeth sy'n penderfynu a ddylid hysbysu'r rhieni ac ni fyddai'n gwneud hynny pe bai'n teimlo y byddai'r plentyn yn wynebu mwy o berygl.**

**Rydym yn ystyried yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â materion amddiffyn plant unigol yn gyfrinachol ac rydym yn eu trin yn unol â hyn. Rydym yn trosglwyddo gwybodaeth am y bobl briodol yn unig; rydym yn hysbysu'r plentyn ynglŷn â'r sawl sy'n gysylltiedig â'r mater a'r wybodaeth rydym wedi'i rhoi iddynt ar bob cam.**

**Mae'n ofynnol i bob oedolyn a gyflogir yn ein hysgol gael gwiriad GDG er mwyn sicrhau nad oes tystiolaeth o droseddau'n ymwneud â phlant neu gam-drin. Mae hyn yn cynnwys staff y gegin, glanhawyr a llywodraethwyr.**

**Efallai y bydd adegau pan fydd oedolion yn ein hysgol wrth gyflawni eu dyletswyddau'n defnyddio ymyriad corfforol i atal plentyn. Mae'r pennaeth yn mynnu bod yr aelod o staff sy'n ymwneud â'r digwyddiad yn rhoi gwybod iddi ar unwaith am hyn, a'i gofnodi yn llyfr digwyddiadau'r ysgol. Mae staff yn y CAA wedi cael eu hyfforddi mewn digwyddiadau Amddiffyn Plant sy'n cael ei ddiweddaru'n aml.** ***Gweler y Polisi ar gyfer Defnyddio Ymyriadau Corfforol Cyfyngol er mwyn Rheoli Ymddygiad Heriol (grym rhesymol).***

**Mae'r holl oedolion yn yr ysgol yn derbyn hyfforddiant rheolaidd i gynyddu eu hymwybyddiaeth o gam-drin a'u gwybodaeth am weithdrefnau amddiffyn plant lleol cytunedig. Darperir hyn gan Swyddog Amddiffyn Plant yr ALl, Paul Henwood, y Pennaeth neu'r Cydlynydd AAA.**

**Mae'r holl staff yn deall nad ydynt yn gallu cadw gwybodaeth a ddatgelwyd yn gyfrinachol hyd yn oed os yw'r plentyn yn gofyn iddynt wneud hyn.**

**Mae'r ysgol yn cadw cofnodion o unrhyw gyfeiriadau a wnaed i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys unrhyw alwadau ffôn. Cedwir y cofnodion hyn yn ddiogel ac yn gyfrinachol.**

**Mae'r ysgol yn hysbysu'r holl staff bod unrhyw gyfeiriad a wneir yn gyfrinachol ac na ddylent hysbysu'r rhieni.**

**Sicrheir bod yr holl staff a'r disgyblion yn ymwybodol o ddiogelwch ar y rhyngrwyd. Mae staff yn derbyn hyfforddiant yn yr ysgol ar gyfer hyn ac yn llofnodi i ddweud eu bod wedi derbyn yr hyfforddiant ac yn derbyn polisi**

ysgrifenedig yr ysgol. Sicrheir bod y plant yn ymwybodol o hyn drwy'r cwricwlwm.

Mae staff newydd yn derbyn sesiynau sefydlu ar faterion Amddiffyn Plant gan y Pennaeth/Dirprwy Bennaeth/Mentor Staff Newydd.

Mae'r ysgol yn sicrhau gweithdrefnau diogel ar gyfer gwiriadau cyn cyflogi drwy dderbyn geirdaon cyn penodi, ac yn gofyn cwestiynau diogelu fel rhan o'r cyfweliad ffurfiol.

**Adrodd am bryderon**
Mae'r ysgol yn annog yr holl aelodau o staff, â thâl neu ddi-dâl, i fynegi unrhyw bryderon a allai fod ganddynt i'r Pennaeth neu Gadeirydd y Corff Llywodraethu. Gellir gwneud hyn yn ysgrifenedig neu ar lafar, ond dylai staff fod yn barod i drafod materion. Gellir sicrhau staff yr ymdrinnir ag unrhyw beth y maent yn rhoi gwybod amdano mewn modd sensitif a chyfrinachol. Mae'r ysgol yn dilyn polisi'r Awdurdod Lleol ar Ddatgelu Camarfer. ***Gweler Atodiad ii am y broses datgelu ac adrodd a ddilynir gan Ysgol Gymraeg Tan-y-lan***

Bydd cydweithwyr yn nhimau'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd yn trafod pryderon sydd gan staff ysgol am achos penodol neu'n cynnig cyngor i aelod o staff sy'n adrodd am ddigwyddiad yn absenoldeb y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth a'r Cydlynydd AAA, os nad ydynt yn siŵr a oes angen cyfeirio ai peidio - hyd yn oed os yw'n brynhawn dydd Gwener! Y neges bwysig yw **'os ydych yn pryderu, peidiwch ag oedi cyn ceisio cyngor'**, yn enwedig ynghylch unrhyw anafiadau/cleisio am ei fod yn hanfodol y gellir cysylltu â phaediatregydd os cynghorir hynny.

Y rhif i ffonio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yw 01792 635700 - Tîm Mynediad ac Asesiad Cychwynnol y Gwasanaethau Cymdeithasol
**Rhif ffôn Tîm Dyletswydd Argyfwng y Tu Allan i Oriau y Gwasanaethau Cymdeithasol: 01792 775501**

Ni ddylai ysgolion hysbysu'r aelod o staff am y pryder/honiad, gwneud eu hymholiadau mewnol eu hunain na gwneud eu penderfyniad eu hunain ynghylch a yw'r pryder yn broblem Amddiffyn Plant neu'n broblem ddisgyblaeth. Yr Awdurdod Lleol/y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Heddlu fydd yn gwneud y penderfyniad hwn.
Ymdrinnir â honiadau am staff yn unol â 'Staff sy'n wynebu Honiad o Gam-drin – Canllawiau ar Arfer a Gweithdrefn', y ceir copi ohono yn swyddfa'r ysgol.

**Honiad yn erbyn y Pennaeth**
Os gwneir honiad amddiffyn plant yn erbyn y Pennaeth, mae'n rhaid i'r aelod o staff sy'n derbyn yr honiad hwnnw roi gwybod amdano i Gadeirydd y Llywodraethwyr (Gareth Huxtable 07788754860 ). Os na fyddwch yn gallu cael gafael ar Gadeirydd y Llywodraethwyr, cysylltwch â Lisa Collins yn yr Awdurdod Lleol ar y rhifau uchod neu'r Tîm Canolog Cynghori, Cyfeirio ac Asesu Plant ar 01792 635700. Lisa.collins@swansea.gov.uk

**Pryderon am gydweithwyr**
Cydnabyddir bod unrhyw honiad am aelod o staff yn fater anodd a sensitif iawn. Fodd bynnag, bydd rhaid codi unrhyw bryderon am amddiffyn plant sy'n ymwneud ag ymddygiad amhriodol aelodau o staff addysgu neu staff cysylltiol â'r aelod o staff dynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant yn yr ysgol (y Pennaeth). Yn eu habsenoldeb, dylid cysylltu ag un o'r unigolion canlynol:

- Lisa Collins, Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant
  Rhif ffôn 01792 637148
  / 07827 822 700
  e-bost: lisa.collins@swansea.gov.uk

**Camau gweithredu i'w cymryd gan ein hysgol**
- Byddwn yn mynychu sesiynau hyfforddiant perthnasol ar amddiffyn plant yn rheolaidd.
- Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- Bydd yr holl staff yn rhoi gwybod i'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig am unrhyw bryderon bod disgybl yn dioddef neu'n debygol o ddioddef camdriniaeth neu am unrhyw ddatgeliad o gamdriniaeth.
- Gwneir cyfeiriadau ar unwaith i'r Gwasanaethau Cymdeithasol dros y ffôn a'u dilyn yn ysgrifenedig gan ddefnyddio gweithdrefnau'r ALl.
- Bydd unrhyw blentyn ar y gofrestr amddiffyn plant sy'n absennol heb esboniad yn cael ei gyfeirio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Swyddog Lles Addysg.
- Bydd yr holl staff yn rhoi gwybod i'r athro dynodedig/athrawes ddynodedig am unrhyw honiadau a wnaed yn erbyn staff/gwirfoddolwyr yn yr ysgol.
- Byddwn yn ceisio datblygu perthynas o ddealltwriaeth, ymddiriedaeth a hyder gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posib i blant.
- Yn y tair blynedd diwethaf, mae'r pennaeth a'r Cydlynydd AAA wedi cyflawni hyfforddiant y sir ar Arferion Adferol. Bydd y Cydlynydd AAA yn cydlynu cyfeiriadau i asiantaethau allanol a gall gynghori staff/teuluoedd ynghylch asiantaethau/gwasanaethau priodol.

**Atal**
- Mae gan yr ysgol rôl bwysig wrth atal cam-drin drwy ddarparu llinellau cyfathrebu da i'n disgyblion gydag oedolion y gellir ymddiried ynddynt mewn amgylchedd diogel.
- Mae ein hysgol yn annog plant i siarad, ac oedolion i wrando arnynt.
- Mae ein hysgol yn sicrhau bod y plant yn gwybod bod rhywun yn yr ysgol y gallant fynd ato os ydynt yn pryderu neu mewn trafferth.
- Bydd ein hysgol yn cynnwys cyfleoedd yn y cwricwlwm ABCh i ddisgyblion archwilio materion i'w helpu i ddatblygu sgiliau i gadw'n ddiogel rhag niwed ac i wybod at bwy y gallant droi am help.

**Y Gofrestr Amddiffyn Plant -** mae gofyn i bob Awdurdod Lleol gadw cofrestr o'r holl blant sy'n dioddef niwed sylweddol parhaus. Diben hyn yn

bennaf yw rhybuddio gweithwyr proffesiynol am y pryderon hynny.

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol neu'n gynt os bydd deddfwriaeth a/neu ganllawiau'n newid

**Radicaleiddio ac Eithafiaeth**

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau Gwrthsafiad a pharch:

Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u

cymunedau, sy'n nodi'r rôl sydd gan ysgolion i ddatblygu a chefnogi dulliau strategol i

hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol a dileu eithafiaeth dreisgar

Adolygwyd gan: Mr Berian Wyn Jones ac is-bwyllgor y llywodraethwyr

Dyddiad: Mai 2023
Llofnodwyd Berian Wyn Jones

**Atodiad i**

***Cam-drin Plant - Categorïau, Arwyddion a Symptomau***
**Ceir 4 categori: Corfforol, Rhywiol. Esgeulustod ac Emosiynol**

**Dyma'r diffiniadau:-**

**Gall <u>cam-drin corfforol</u> gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldanu, boddi, mygu, neu fel arall gan achosi niwed corfforol i blentyn. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd am fod rhiant/gofalwyr yn esgus symptomau afiechyd neu'n achosi'r symptomau hynny i blentyn neu oedolyn diamddiffyn sydd yn eu gofal. Disgrifir y sefyllfa hon yn gyffredin gan ddefnyddio termau megis salwch ffug drwy ddirprwy neu syndrom Munchausen drwy ddirprwy.**

**Mae <u>cam-drin rhywiol</u> yn ymwneud â gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol p'un ai yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosodiad drwy dreiddio (er enghraifft trais neu ryw geneuol) neu weithredoedd heb dreiddiad megis mastyrbiad, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau heb gyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych neu gynhyrchu delweddau rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol, neu feithrin perthynas amhriodol â phlentyn wrth baratoi ar gyfer cam-drin (gan gynnwys ar y rhyngrwyd). Nid oedolion gwrywaidd yn unig sy'n cam-drin yn rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd o gam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill hefyd.**

**<u>Esgeulustod</u> yw methiant parhaus i ddiwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol plentyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn yn ddifrifol. Gall esgeuluso ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau gan y fam. Wedi i blentyn gael ei eni, gall esgeulustod gynnwys rhieni neu ofalwr yn peidio â darparu bwyd, dillad a lloches ddigonol (gan gynnwys gwahardd o'r cartref neu gefnu ar y plentyn); peidio ag amddiffyn y plentyn rhag niwed neu berygl corfforol ac emosiynol; peidio â sicrhau goruchwyliaeth ddigonol (gan gynnwys defnyddio rhoddwyr gofal annigonol); neu beidio â darparu mynediad i ofal neu driniaeth feddygol briodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu ddiffyg ymateb i anghenion emosiynol sylfaenol plentyn.**

**<u>Cam-drin emosiynol</u> yw trin plentyn yn emosiynol wael yn barhaus fel bod hynny'n achosi effaith andwyol ddifrifol barhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu'n ddigariad, yn annigonol neu mai ei unig werth yw ei fod yn diwallu anghenion person arall. Gall gynnwys gosod disgwyliadau ar blentyn sy'n anaddas i'w oed a'i ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blant deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu ecsbloetio neu lygru plentyn.**

**Dangosyddion Cam-drin Corfforol:**

- **cleisio, marciau neu anafiadau ar unrhyw ran o'r corff nad oes esboniad amdanynt**

- cleisiau niferus - mewn clystyrau ar ran uchaf y fraich a rhan allanol y forddwyd
- llosgiadau sigaréts
- marciau cnoadau dynol
- esgyrn wedi torri
- sgaldiadau, gyda marciau sblash am i fyny
- llosgiadau niferus gydag ymyl sydd wedi'i diffinio'n glir.

Gall newidiadau mewn ymddygiad hefyd fod yn arwydd o gam-drin corfforol:

- ofn yr eir at rieni i ofyn am eglurhad
- ymddygiad ymosodol neu byliau difrifol o dymer
- gwingo wrth nesáu ato neu ei gyffwrdd
- amharodrwydd i newid, er enghraifft, mewn tywydd poeth
- iselder
- ymddygiad encilgar
- rhedeg i ffwrdd o'r cartref.

**Dangosyddion Cam-drin Rhywiol:**

- poen neu gosi ar yr organau cenhedlu
- cleisio neu waedu ger yr organau cenhedlu
- clefyd a drosglwyddir yn rhywiol
- haint neu redlif o'r wain
- poen yn y stumog
- anghysur wrth gerdded neu eistedd
- beichiogrwydd.

**Mae newidiadau mewn ymddygiad a all hefyd fod yn arwydd o gam-drin yn cynnwys:**

- newidiadau sydyn neu heb esboniad mewn ymddygiad e.e. dechrau bod yn ymosodol neu'n
  encilio
- ofn cael ei adael gyda pherson penodol neu grŵp o bobl
- cael hunllefau
- rhedeg i ffwrdd o'r cartref
- gwybodaeth rywiol sydd y tu hwnt i'w oed neu ei lefel ddatblygiadol darluniau neu iaith rywiol
- gwlychu'r gwely
- problemau bwyta megis gorfwyta neu anorecsia
- hunan-niweidio neu lurguniad, weithiau'n arwain at ymgais i ladd ei hun
- dweud bod ganddo gyfrinachau na all ddweud wrth neb amdanynt
- camddefnyddio sylweddau neu gyffuriau
- cael arian yn ei feddiant yn sydyn a heb esboniad amdano

- dim caniatâd i gael ffrindiau (yn enwedig yn ystod y glasoed)
- ymddwyn mewn ffordd rywiol gignoeth tuag at oedolion

**Dangosyddion Esgeulustod:**

- chwant bwyd yn gyson, weithiau'n dwyn bwyd oddi ar blant eraill
- yn frwnt neu'n drewi'n aml
- colli pwysau, neu fod dan bwysau'n gyson
- dillad anaddas ar gyfer yr amodau.

**Gall newidiadau mewn ymddygiad a all fod yn arwydd o esgeulustod gynnwys:**

- cwyno am fod yn flinedig drwy'r amser
- peidio â gofyn am gymorth meddygol a/neu beidio â mynd i apwyntiadau
- ychydig iawn o ffrindiau
- yn sôn am gael ei adael ar ei ben ei hun neu heb oruchwyliaeth.

**Dangosyddion Cam-drin Emosiynol:**

- ymddygiad niwrotig e.e. pwdu, troi'r gwallt, siglo
- ddim yn gallu chwarae
- bod ag ofn gwneud camgymeriadau
- anhwylderau lleferydd sydyn
- hunan-niweidio
- ofni yr eir at riant ynglŷn â'i ymddygiad
- oedi datblygiadol o ran cynnydd emosiynol

## Atodiad ii

**Delio â datgeliadau a wneir gan blentyn:**

**Derbyn**

- Gwrandewch yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, heb ddangos sioc nac anghrediniaeth
- Derbyniwch yr hyn sy'n cael ei ddweud Efallai bydd y plentyn sy'n datgelu'r wybodaeth yn blentyn rydych yn gwybod nad yw bob amser yn dweud y gwir. Fodd bynnag, peidiwch â gadael i wybodaeth o'r gorffennol am y plentyn hwn ganiatáu i chi ei farnu ymlaen llaw neu beidio ag ystyried bod ei honiad yn ddilys.
- Peidiwch â cheisio ymchwilio i'r honiad. Eich dyletswydd fydd gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo'r wybodaeth.

**Tawelu meddwl**

- Ewch ati i dawelu meddwl y plentyn. Byddwch yn onest bob amser a pheidiwch â gwneud addewidion na allwch eu cadw, er enghraifft: "Arhosa i gyda ti", neu "Bydd popeth yn iawn nawr".
- Ceisiwch liniaru euogrwydd os yw'r disgybl yn cyfeirio ato. Er enghraifft, gallech ddweud: "Nid ti sydd ar fai. Nid dy fai di yw hyn".
- Peidiwch ag addo cyfrinachedd. Bydd dyletswydd arnoch i drosglwyddo'r wybodaeth ac mae angen i'r plentyn wybod hyn.

**Ymateb**

- Gallwch ofyn cwestiynau ac efallai bydd angen i chi wneud hyn mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyfle i holi'r plentyn yn drylwyr gan ofyn cwestiynau treiddgar ac estynedig. Yr unig bethau y mae'n rhaid i chi eu gwybod yw pwyntiau amlwg yr honiad y mae'r plentyn yn ei wneud.
- Peidiwch â gofyn cwestiynau 'arweiniol', er enghraifft "Beth wnaeth e/hi nesaf?" (mae hyn yn tybio bod ef/hi wedi gwneud hyn), neu "Wnaeth e' dy gyffwrdd?". Gall cwestiynau o'r fath olygu nad yw'ch tystiolaeth chi (na'r plentyn) yn ddilys mewn unrhyw erlyniad llys yn nes ymlaen.
- Gofynnwch gwestiynau agored gan ddefnyddio'r geiriau “Pwy”, “Beth”, “Pryd”, “Ble”, “Pam” a “Sut”. Pan fyddwch yn gofyn cwestiynau gan ddefnyddio'r geiriau hyn, mae'n amhosib cael yr ateb "Do/Naddo Oes/Nac oes Ie/Na" .
- Peidiwch â beirniadu'r tramgwyddwr honedig oherwydd efallai bydd gan y plentyn gysylltiad emosiynol â'r person hwn o hyd.
- Peidiwch â gofyn i'r disgybl ailadrodd ei honiad i aelod arall o staff. Os gofynnir iddo ailadrodd yr honiad, efallai bydd yn meddwl nad yw pobl yn ei gredu a/neu gall ei gof o'r hyn a ddigwyddodd newid.

**Cofnodi**

- Gwnewch nodiadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol gwneud hynny. Cofnodwch y geiriau gwirioneddol a ddywedwyd gan y plentyn - peidiwch â'u hail-gyfieithu i'r ffordd y mae oedolion yn siarad na cheisio gwneud synnwyr o strwythur yr hyn a ddywedwyd. Peidiwch â digio wrth unrhyw iaith sarhaus neu eiriau a ddefnyddir i ddisgrifio'r cam-drin.
- Rhowch amser a dyddiad ar eich nodiadau a pheidiwch â'u dinistrio rhag ofn y bydd eu hangen gan lys.
- Os ydych yn gallu, tynnwch ddiagram i ddangos safle unrhyw gleisio ond peidiwch â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddilledyn at y diben hwn.
- Cofnodwch ddatganiadau a phethau y gellir arsylwi arnynt, yn hytrach na'ch dehongliadau neu'ch tybiaethau chi.

**Camau terfynol**

Wedi i chi ddilyn y canllawiau uchod, trosglwyddwch yr wybodaeth ar unwaith i'r Bobl Ddynodedig sy'n gyfrifol am Amddiffyn Plant. Byddan nhw wedyn yn cysylltu â'r Tîm Cyngor, Cyfeirio ac Asesu Plant Canolog i geisio'u cyngor ynglŷn â'r hyn a ddylai ddigwydd nesaf. Os nad yw'r bobl ddynodedig ar gael, ffoniwch y Tîm Cyngor, Cyfeirio ac Asesu Plant Canolog ar 635700 am gyngor ac arweiniad.

Dyddiad adolygu'r polisi Mai 2023

Gan Mr Berian Wyn Jones , Pennaeth